Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

1: Sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi'n deg, yn foesegol a chynaliadwy

2: Cynorthwyo ymddygiad cynaliadwy a gwneud y cysylltiadau

3: Chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb

4: Sicrhau ein bod yn deal pwysigrwydd defnyddio adnoddau'r ddaear yn effeithlon a chyfrannu at lesiant byd-eang

5: Gwneud y penderfyniadau cywir yn awr, i alluogi cenedlaethau'r dyfodol i ffynnu

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diffinnir y nod hwn fel

"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang."

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

1. Defnydd a Chaffael Moesegol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Diffinio'r nod

Martin Luther King yr leuengaf a ddywedodd: "cyn i chi orffen bwyta'ch brecwast yn y bore, rydych chi wedi dibynnu ar hanner y byd."

Mae gan yr hyn yr ydym yn ei wneud bob dydd, ein penderfyniadau a'r ffordd yr ydym yn dewis gwario ein harian ganlyniadau pellgyrhaeddol i wledydd eraill a phobl ar draws y byd. Dengys amcangyfrifon y byddai arnom angen 1.7 Daear i barhau gyda'n lefelau presennol o dwf a defnydd.

Mae'n hollbwysig ein bod, wrth feddwl am wella llesiant pobl yng Nghymru, hefyd yn meddwl am ein heffaith ar eraill. Nid defnyddwyr byd-eang yn unig ydym ni, ond dinasyddion byd-eang, ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau nad ydym yn gweithredu mewn ffordd sy'n niweidiol i eraill. Golyga hyn ein bod yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chadwyni cyflenwi moesegol , yn defnyddio ein rhan deg o adnoddau naturiol y ddaear, yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd, yn gweithio i wneud Cymru'n lle croesawgar i bawb, gan wneud y penderfyniadau ariannol cywir ac addysgu pobl eraill pa mor bwysig ydyw cyfrifoldeb byd-eang.

Astudiaethau achos
Trwy'r ddogfen hon fe welwch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.

CARTREF

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

Caffaelwch nwyddau a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 1: Defnydd a chaffael moesegol)

Darparwch gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am a deall ein heffaith yn fyd-eang
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 2: Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang)

Sicrhewch fod ein cymunedau'n croesawu pawb, gan gyfrannu at lesiant cymdeithasol a diwylliannol
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 3: Cydsefyll a heddwch)

Defnyddiwch adnoddau naturiol yn ddoeth, gan gyfrannu at lesiant amgylcheddol yn fyd-eang ac yng Nghymru
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 4: Ein rhan deg o adnoddau naturiol)

Gwnewch benderfyniadau ariannol sy'n gwella llesiant economaidd yn fyd-eang ac yng Nghymru
(Gweler taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang pwnc 5: Buddsoddi a dargyfeirio teg a moesegol)

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Bwriad y **Ddeddf Caethwasiaeth Fodern** 2015 oedd brwydro yn erbyn caethwasiaeth modern yn y DU, ac mae'n cyfnerthu troseddau blaenorol sy'n berthnasol i fasnachu pobl a chaethwasiaeth. Mae gan y llywodraeth ganllawiau ar gyfer sefydliadau ar sut i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn eu busnes neu eu cadwyni cyflenwi yma.

St

Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisïau a nodir mewn deddfwriaeth - mae camau a gweithrediadau penodol sy'n glynu wrth y rhain wedi eu hamlygu mewn oren gyda symbol 'St'

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Galluogwyr

Mae'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd:**

- **Pan fydd cymdeithas sifil yn cefnogi gweithredu sy'n cael effaith byd-eang cadarnhaol.**
- **Pan gytunir bod amrywiaeth yn uno cymunedau yn hytrach na'u rhannu.**
- **Pan fydd pwysigrwydd gweithredu byd-eang yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall: a heb fod yn cael ei weld fel rhywbeth syml, dymunol 'ychwanegol' at fusnes-fel-arfer.**
- **Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr eraill yn berchen ar y weledigaeth i gynorthwyo prosiectau byd-eang ac yn deall ein cyfraniad cadarnhaol ac yn croesawu ymwelwyr rhyngwladol.**
- **Pan fydd yna ddealltwriaeth o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a'u perthnasedd i Gymru.**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Anallugwyr

Mae'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd:**

- **Pan fydd diffyg dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan fod yn gyfrifol yn fyd-eang.**
- **Pan fydd gwleidyddion ac uwch arweinwyr yn mabwysiadu ymagwedd 'gofalu am Gymru gyntaf', gan anwybyddu popeth arall.**
- **Pan na fydd mesurau neu ddangosyddion ar gael i ddisgrifio natur ymagweddau effeithiol tuag at fod yn gyfrifol yn fyd-eang.**
- **Pan fydd sefydliadau ynghlwm wrth drefniadau sy'n bodoli eisoes – megis contractau caffael, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd.**
- **Pan fydd arbenigedd perthnasol mewn sefydliadau'n gyfyng ac mewn seilos.**

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

1: Defnydd a Chaffael Moesegol

Sicrhau fod ein cadwyni cyflenwi'n deg, yn foesegol a chynaliadwy

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Diffinio'r mater

Mae'r penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud o ddydd i ddydd, pan fyddwn yn prynu, yn contractio neu'n caffael nwyddau a gwasanaethau yn medru cael effeithiau yn lleol a byd-eang. Mae traean o boblogaeth y byd yn byw ar lai nag un ddoler y dydd ac mae'r system fasnachu gyfredol yn eu methu. Gall Masnach Deg helpu i newid hyn. Mae'r pwrs cyhoeddus o £6 biliwn yng Nghymru yn offeryn pwerus i ddarparu cynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd. Wrth wraidd popeth yr ydym yn ei brynu mae person, ac wrth dalu pris teg i'r person hwnnw/honno am nwyddau, gallwn eu cynorthwyo i anfon eu plant i'r ysgol, rhoi bwyd ar y bwrdd a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Gallwn hefyd sicrhau ein bod yn defnyddio'n unig ein cyfran deg o adnoddau naturiol y ddaear ac yn gwarchod ein cynefinoedd morol a'n coedwigoedd yn cynnwys strategaethau datgoedwigo sy'n lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill

Taith tuag at Gymru lewyrchus
Pwnc 1: Caffael teg a lleol

Taith tuag at Gymru gydnerth
Pwnc 5: Defnyddio adnoddau naturiol

CARTREF

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

1. Defnydd a Chaffael Moesegol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gwneud **Newidiadau** Syml

Adolygwch eich polisi caffael a sicrhewch ei fod yn cynnwys arferion teg a moesegol (i gynnwys masnach deg, Cyngor Stiwardiaeth Forol a Chyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd.

ee

e.e. Llywodraeth Cymru'n dweud wrthym sut maen nhw'n ei wneud.

St

Edrychwch i weld a yw eich contractau'n cwrdd ag anghenion y Ddeddf Caethwasiaeth Modern/Cod ymddygiad.

Sicrhewch eich bod yn cael eich nwyddau'n lleol lle mae hynny'n bosib, fel y gallwch ddwyn gwerth ychwanegol i'r economi lleol, gwella sgiliau a lleihau allyriadau carbon.

CARTREF

Defnyddiwch gynhyrchion sydd wedi eu hailddefnyddio/ailgylchu megis papur i'ch argraffydd neu hyd yn oed eich dodrefn a'r teils ar y llawr.

ee

e.e. gwaith caffael a symud swyddfa o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Defnyddiwch Bapur wedi ei Ailgylchu'n unig, a gosodwch ddyddiad ar gyfer rhoi'r gorau i ddefnyddio papur, ac wrth argraffu, defnyddiwch ddim ond inc wedi ei seilio ar soia.

Ymunwch â electronicswatch.com – maen nhw'n ffocysu ar fonitro cadwyni cyflenwi nwyddau electronig, o'r cydrannau cychwynnol i'r cydosod terfynol a chynhyrchiad yr offer TGCh gorffenedig er mwyn cynorthwyo caffael offer electronig mewn dulliau moesegol.

Hyrwyddwch systemau ardystio sefydliadol cynaliadwy yn cynnwys BCorp a'r Ddraig Werdd.

Cynorthwywch eich staff i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r cynlluniau ardystio cynaliadwy cymhleth megis Masnach Deg, Cyngor Stiwardiaeth Forol a Chyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd, Cynghrair Coedwigoedd Glaw, Eco-cert ac Organic fel bod yr holl staff yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhyngddynt fel y gellir gwneud penderfyniadau ar gontract a pholisi priodol.

Dadansoddwch a chyhoeddwch eich gwariant caffael cyhoeddus, gan dalu sylw manwl i ble mae'r arian yn mynd yn nhermau daearyddiaeth, sector ac yn nhermau'r math o fusnes. Bydd hyn yn helpu i liniaru effaith negyddol.

Taith tuag at

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

1. Defnydd a Chaffael Moesegol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bod Yn Fwy **Anturus**

Adolygwch a datblygwch eich polisi bwyd a chontractau caffael i gynyddu ystod cynnyrch i gynnwys ffrwythau, sudd, byrbrydau a bwyd arall sy'n foesegol a chynaliadwy lle mae hynny'n bosibl, a chynhwyswch nwyddau heb olew palmwydd/ neu olew palmwydd cynaliadwy yn eich contractau bwyd i sicrhau bod cynefinoedd naturiol yn cael eu cynnal.

Adolygwch a datblygwch eich polisi dillad gwaith a chontractau caffael i gynyddu ystod cynnyrch i gynnwys tecstilau/dillad gwaith/ iwnifformau teg moesegol a chynaliadwy.

ee

e.e. **Ysgol Uwchradd Y Trallwng, Ysgol Hafan y Môr** a **Transport for London**

CARTREF

Adolygwch a datblygwch bolisi i sicrhau fod eich cadwyn gyflenwi'n gynaliadwy ar gyfer eich holl ddeunyddiau, yn cynnwys agregau, paent, cerbydau a chynnyrch sy'n cynnwys olew, a chynhwyswch ofynion di-wrthdaro yn eich holl gontractau a thendrau.

St

Sicrhewch fod eich contractau'n cwrdd ag anghenion y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern/Cod Ymddygiad.

Caffaelwch nwyddau electronig di-wrthdaro drwy gynlluniau gwirio annibynnol megis electronicswatch.com a Greenpeace Guide to Electronics fel bod y mwynau a'r adnoddau naturiol yn gynaliadwy a moesegol.

Gwnewch gais am ardystiadau sefydliadol cynaliadwy.

ee

e.e. BCorp a'r Ddraig Werdd mewn tendrau a cheisiadau am gontractau.

Cyflwynwch yr wybodaeth ddiweddaraf/hyfforddiant hyfforddiant fel bod staff presennol a staff newydd yn ymwybodol o'r newidiadau i gynlluniau ardystio cynaliadwy gan eu grymuso i wneud penderfyniadau priodol ar gontractau a phenderfyniadau polisi - gallai hyn gynnwys gofyn i'r grŵp Masnach Deg lleol neu Fasnach Deg Cymru i ddod i siarad â chi.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Bod Yn Fwy **Anturus**

Gwnewch eich swyddfa'n ddi-bapur ac anelwch at ddod yn swyddfa heb unrhyw wastraff.

Cefnogwch fasnachwyr unigol, busnesau bach, mentrau cymdeithasol cchwmnïau budd cymunedol a busnessau pobl dduon (BAME) fel y gallant ddarparu gwasanaethu'n llwyddiannus.

ee

e.e. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cael rhai o'u heitemau lletygarwch oddi wrth Fair Dos ac mae Cyngor Bwrdeistref Caerffili'n cael eu llaeth oddi wrth gynhyrchydd lleol.

Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Byd-Eang

1. Defnydd a Chaffael Moesegol

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Perchnogi'r **Uchelgais**

Gweithredu cydweithredol neu genedlaethol i berchnogi'r uchelgais

Mae gan Gymru economi cylchol cwbl weithredol.

Mae Cymru'n genedl garbon niwtral.

Mae Cymru'n cynnal ei statws fel Cenedl Masnach Deg.

Sut fedr eich sefydliad berchnogi'r uchelgais

Mabwysiadwch Ymagwedd Rheoli Cylch Bywyd tuag at gaffael a defnyddio fel bod 100% o'ch te, coffi, siocled poeth, ffrwyth, sudd, diodydd meddal, byrbrydau, dillad, TG, yn dod o ffynonellau masnach deg/foesegol a bod y rhain yn cael eu dangos drwy systemau gwerthuso llym sy'n ymgorffori'r egwyddor gwrthod, lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu.

Rydych yn sicrhau fod pob person yn eich cadwyn gyflenwi'n cael eu trin yn deg a chynaliadwy heb i unrhyw niwed gael ei achosi i berson na'r amgylchedd.

CARTREF

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Enghreifftiau ac adnoddau eraill

- WRAP Cymru
- New Economics Foundation
- CLES

CARTREF